# Dysgu adref        Uned 5/6

| | | | |
|---|---|---|---|
| Agorwch y ddogfen "canrannau percentages". Dewiswch y dasg sydd yn addas i chi (lemwn , cynnes , sbeislyd ) Cwblhewch y dasg. Defnyddiwch y linc os oes angen cymorth ac hefyd i chwarae gemau. https://www.bbc.co.uk/bitesize/topics/znjqtfr<br>Mae yna gemau da i'w chwarae ar www.topmarks.co.uk - chwiliwch 'percentages' . | Mae staff y GIG wedi eu labelu yn 'arwyr' yn ddiweddar . Pa fath o rinweddau personol sydd gan arwr? Agorwch y ddogfen "qualities of a hero". Defnyddiwch eiriadur i sicrhau eich bod yn deall ystyr y geiriau ac yna penderfynwch pa rhai ohonynt sydd yn berthnasol i staff y GIG a'u hysgrifennu ar ffurf thestr. | Ysgrifennwch lythyr i'r gweinidog addysg yn esbonio pam fod angen i blant i fynd nol i'r ysgol. Cofiwch drafod y pwyntiau o blaid ac yn erbyn ysgol yn gyffredinol, ac yn arbennig yn ystod y cyfnod hwn. | Ysgrifennwch flog yn Gymraeg am un diwrnod yn ystod eich cyfnod yn y tŷ. Gwnewch yn siwr eich bod yn canolbwyntio ar atalnodi, rhedeg berfau yn gywir ac ysgrifennu yn gronoloegol. |
| Agorwch y ddogfen "uplevelling verbs". Yn gyntaf tanlinellwch y berfau i gyd (Maen nhw'n ferfau diflas iawn!) Wedyn, uwchlefelwch y paragraff gan wella'r berfau. Defnyddiwch thesawrws i'ch helpu - os nad oes thesawrws gennych gallwch www.thesaurus.com<br>*Cofiwch fod y berfau yn y darn yn y ffurf gorffennol ond bydd angen edrych yn y presennol yn y thesawrws* | Dros gyfnod o wythnos, cofnodwch faint o amser rydych yn treulio o flaen sgrîn bob dydd (Teledu, i-pad, cluniadur, ffôn, xbox a.a) Yna recordiwch y data ar ffurf graff. Efallai gallech gyhmaru eich data chi gyda data aelod arall o'r teulu | Defnyddiwch y wê i ymchwilio i'r cyn-filwr Tom Moore, sydd wedi codi dros 23miliwn i'r GIG yn ddiweddar. Yna ysgrifennwch sgript o gyfweliad rhyngddoch chi a'r dyn anhygoel hwn. Gallech hyd yn oed recordio'r cyfweliad a'i lwytho i'ch ffeil HWB. | Meddyliwch am syniad ar gyfer stori antur. Penderfynwch ar deitl i'r stori a dyluniwch glawr priodol i'r llyf. Yna, ysgifennwch froliant i'r stori – heb rhoi gormod o fanylion! |
| Gan ddilyn ymlaen o'ch stori antur: Meddyliwch am eich prif gymeriad a tynnwch lun ohono/ohoni. Yna labelwch y llun gydag ansoddeiriau a ffeithiai i'w ddisgrifio/ disgrifio. Yn olaf, defnyddiwch yr wybodaeth i ysgrifennu disgrifiad manwl o'ch cymeriad. Cofiwch amrywio agoriadau brawddegau ac i ddefnyddio gwefreiriau. | Agorwch y ddogfen "ffracsiynau a chyfrannedd fractions and proportion". Dewiswch y dasg sydd yn addas i chi (lemwn , cynnes , sbeislyd ) Cwblhewch y dasg.<br>Mae yna gemau da i'w chwarae ar www.topmarks.co.uk - chwiliwch 'fractions. | Amser hyn o'r flwyddyn mae ein gerddi ac ardaloedd tu fas yn dechrau dod yn fyw gyda bywyd gwyllt. Adeiladwch westy trychfilod i'ch ardal allanol chi a chofnodwch pa greaduriaid sydd yn dod i aros (defnyddiwch y wê am syniadau ar gyfer eich gwesty). | Dewiswch un math o drychfil. Ar ôl gwneud ychydig o waith ymchwil, paratowch ffeil o ffeithiau neu adroddiad amdano. Rhaid cynnwys manylion am bryd a gwedd (lliw/maint/adennydd/coesau a.a.), cynefin, diet a.a. Hefyd bydd angen cynnwys braslun o'r trychfil wedi'i labelu. |